

Bwletin Awdurdod S4C
Cyfarfod 299 - 19 Ebrill 2007
Gwesty Maesmawr Hall, Caersws

Mae'r bwletin hwn yn adrodd ar gyfarfod yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 19 Ebrill 2007.

1. Cyflwyniad Chwarterol Ymchwil

Cyflwynodd Carys Evans gyflwyniad ymchwil ar gyfer Chwarter un 2007.

2. Gwasanaeth i Blant a Phobl Ifanc

Adolygwyd y ddogfen drafft ar yr ymgynghoriad ac awgrymwyd nifer o newidiadau i'r testun. Penderfynwyd ailedrych ar yr amserlen a'r Cynllun Cyfathrebu.

3. Adroddiad Chwarter 1^{af} ar y Cynllun Corfforaethol

Derbyniwyd yr adroddiad. Bwriedir trefnu cyfarfod rhwng JWJ, CH a HR i drafod Cynllun Cyfathrebu'r Awdurdod.

4. Adroddiad y Cadeirydd

Adroddodd JWJ ar gynhadledd Plaid Cymru. Nododd ei fod yn ogystal wedi mynychu agoriad y gwasanaeth awyren newydd o Gaerdydd i'r Fali.

5. Adroddiad y Prif Weithredwr

Cyflwynodd IJ ei hadroddiad ysgrifenedig. Roedd yn hapus fod S4C wedi bod yn *pro-active* wrth ddelio â'r cwestiwn o alwadau ffôn graddfa uwch. Nid oedd un gwyn wedi dod i S4C.

Gofynnodd i'r Awdurdod gymeradwyo penodiad Clive Jones fel aelod anweithredol o'r Bwrdd Cyfarwyddwyr, a chytunwyd yn unfrydol.

6. Materion Eraill

Yn ogystal, trafodwyd/nodwyd y materion canlynol:

- Adroddiad Cwynion a Chydymffurfiaeth
- Adroddiad y Pwyllgor Cynnwys
- Adroddiad Ymchwil
- Adroddiad y Cyfarwyddwr Comisiynu
- Adroddiad Ariannol
- Rhaglen Waith yr Awdurdod 2007
- Tabl Digwyddiadau am 2007